**SAER GOLYGFEYDD**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

## Y Teulu Creu Theatr

Pwrpas y Teulu Creu Theatr yw creu a gweithredu i'r safonau uchaf bob agwedd ar gynyrchiadau a phrosiectau cysylltiedig Theatr Clwyd, mewn partneriaeth â chyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr prosiectau. Mae'r Teulu'n gyfrifol am sicrhau bod timau creadigol yn cyflawni eu gweledigaeth artistig o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt.

Mae aelodau'r Teulu Creu Theatr yn gweithio'n agos ac ar y cyd â'i gilydd a gydag aelodau eraill y Teulu, i wireddu potensial llawn ein cynyrchiadau a'r sioeau sy'n ymweld. Maen nhw hefyd yn cefnogi pob digwyddiad yn yr adeilad, gwaith y Teulu Cymunedau a holl waith Theatr Clwyd sy'n teithio i'r gymuned a thu hwnt.

## Pwrpas y Swydd

Gweithio fel rhan o dîm y gweithdy fel rhan o'r Teulu Creu Theatr, gydag arbenigedd mewn adeiladu setiau a phrops, gan ddarparu gwasanaeth o'r safonau uchaf posibl i gynyrchiadau Theatr Clwyd.

## Cyfrifoldebau allweddol

### Cyffredinol

- O dan arweinyddiaeth Rheolwr y Gweithdy, cynorthwyo gydag adeiladu setiau neu unrhyw eitem gynhyrchu yn ôl y gofyn, i'r safonau uchaf posibl ac o fewn yr amser a'r gyllideb a neilltuwyd.
- Cynorthwyo yn ystod gwaith ffitio a'r wythnosau cynhyrchu.
- Ymgymryd â gwaith ymarferol mewn perthynas â symud i mewn, gosod, tynnu'r set i lawr a symud allan, gan gynnwys cydosod, addasu a defnyddio golygfeydd, props, rigio ac offer codi.
- Rhoi gwybod i Reolwr y Gweithdy os oes angen llogi neu brynu unrhyw offer arbenigol, eitemau traul a'r ffitiadau os oes angen.
- Lle bo angen, darparu cymorth technegol i ddefnyddwyr allanol.
- Cysylltu â Rheolwr y Gweithdy a'r Rheolwr Celf Golygfeydd i helpu i sicrhau bod yr adran yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon drwy gydol y broses adeiladu, sy'n cynnwys gwaith adeiladu a golygfeydd.
- Gweithio ochr yn ochr â'r timau Adeiladu a Golygfeydd i sicrhau cynnal a chadw'r gweithdy o ddydd i ddydd.

### Iechyd a Diogelwch

- Sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni bob amser wrth weithio.
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i'r gofod, y peiriannau a'r offer a ddefnyddir.
- Sicrhau bod yr holl offer arbenigol yn cael ei gau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Rhoi gwybod am neu sicrhau bod pob perygl posibl yn cael ei wneud yn ddiogel cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

**Arall**

- Helpu i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n ddiogel a'i fod ar gael yn hwylus i ddefnyddwyr awdurdodedig.
- Pan fo angen, ymgymryd â rhestr eiddo o'r holl offer a deunyddiau sy'n cael eu cadw a'u defnyddio.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen rhesymol fel y nodir gan y Rheolwr Gweithdy, y Rheolwr Cynhyrchu neu'r Pennaeth Cynhyrchu.

**Manyleb y Person**
**Hanfodol**

- Profiad perthnasol ymarferol o weithio ym maes adeiladu, gwaith saer a / neu ffabrigo metel, mewn amgylchedd theatr yn ddelfrydol.
- Gallu clir i ddarllen a deall cynlluniau technegol.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â phob defnyddiwr theatr a gofod digwyddiadau, yn enwedig defnyddwyr annhechnegol.
- Dull trefnus o weithio gydag enw da am gadw at derfynau amser.
- Y gallu i ddefnyddio ystod eang o offer a pheiriannau gweithdy yn ddiogel ac yn hyderus.
- Y gallu i ddefnyddio ystod eang o offer pŵer cludadwy ac offer llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Profiad o gadw at ofynion Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.
- Hyderus wrth weithio'n annibynnol, ond hefyd parodrwydd i gydweithio ar draws llawer o adrannau.
- Y gallu i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nos a rhai penwythnosau.

**Dymunol**

- Profiad a gwybodaeth am gynhyrchu theatr prif ffrwd yn y DU.
- Hyfforddiant mewn trin maniwal, defnyddio ystolion yn ddiogel a gweithio ar uchder.
- Gwybodaeth am CAD a rhaglenni eraill.
- Profiad o sefydlu a rigio systemau decio golygfeydd a llwyfan.
- Tystysgrif tryc fforch-godi gyfredol.
- Tystysgrif cymorth cyntaf gyfredol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Trwydded yrru lawn.